YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
Pennaeth/Head:
Mr Matthew H T Evans
029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

26 Mai 2023

Annwyl Riant / Warcheidwad,

**Ffarwel -** Ar ôl 32 mlynedd yng Nglantaf, hoffwn ddymuno ymddeoliad hapus iawn i Mr Dyfrig Rees. Mae Mr Rees wedi bod yn aelod blaenllaw o gymuned yr ysgol ers 1991 gan gyflawni rolau gwahanol fel athro, Arweinydd Bioleg, Arweinydd y Chweched Dosbarth a dros y blynydoedd diwethaf fel Pennaeth Cynorthwyol. Diolch didwyll iawn a dymuniadau gorau i chi gan holl ddisgyblion a staff yr ysgol dros gyfnod estynedig. Rydym hefyd yn estyn ein dymuniadau gorau i Sam Davies a Finn Tomkinson, cynorthwywyr dysgu sydd gyda ni ers mis Medi, a fydd nawr yn mwynhau seibiant haeddiannol cyn mynd ymlaen i astudio cyrsiau prifysgol ym mis Medi.

**Cyngerdd yr Urdd Nos Iau ac Eisteddfod yr Urdd Llanymddyfri** - Diolch yn fawr iawn i bawb fu'n rhan o'r gyngerdd yr wythnos diwethaf ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Roedd hi'n noson hyfryd ac yn gyfle gwych i'n holl ddisgyblion ymarfer wrth baratoi ar gyfer yr Eisteddfod yr wythnos nesaf. Dymunwn bob lwc i'n holl ddisgyblion yn yr Eisteddfod yn Llanymddyfri ac edrychwn ymlaen at y perfformiadau hynod dalentog!

**Pob lwc Blwyddyn 11, 12 a 13 -** Yr wythnos diwethaf fe wnaethon ni fwynhau gwasanaethau ffarwelio i ddathlu blynyddoedd 11 a 13 ac i hel atgofion am eu hamser gyda ni yng Nglantaf. Roedd yn hyfryd eu gweld gyda'i gilydd wrth iddynt gychwyn ar gyfnod arholiadau a phenllanw eu gwaith caled, ynghyd â diolch am eich cefnogaeth fel rhieni a gwarcheidwaid. Hoffem hefyd ddiolch i'n staff, arweinwyr cynnydd a lles, tiwtoriaid personol ac athrawon pwnc, am eu paratoi ar gyfer y cam pwysig hwn ar eu taith academaidd. Rydym hefyd yn edrych ymlaen yn fawr at Ddawns Ffarwel Bl 11, a gynhelir ar y 29ain o Fehefin. Hoffwn estyn diolch yn arbennig am y cyfraniadau caredig a hael i'r Ddawns Ffarwel, fydd yn sicrhau y gall pob disgybl yn y flwyddyn fynychu a chael noson wirioneddol gofiadwy. Diolch yn fawr i chi gyd!



*Tim dan15 ar eu ffordd i Barc St James !*

**Gwersi Blasu Bl 11 i ddychwelyd i Chweched Glantaf -** Bydd Blwyddyn 11 wrth gwrs yn ymuno â ni unwaith eto ar gyfer gwersi blasu i baratoi ar gyfer y chweched dosbarth. Cynhelir y gwersi hyn ar 26 & 27 Mehefin, gyda gwersi partneriaeth BroPlasTaf yn cael eu cyflwyno ar y 22 o Fehefin.

**Rhaglen Datblygu Staff -** Wrth baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf a gyda datblygu agweddau ar y cwricwlwm ac addysgeg mewn golwg, rydym yn gyffrous i lansio ein rhaglen datblygu staff. Mae nifer o fentrau newydd ar waith i gefnogi staff a disgyblion ar ein taith gwricwlaidd fel ysgol, gan gynnig cyfleoedd hyfforddi pwrpasol i staff gydweithio ar brosiectau a chwblhau ymchwil i wella canlyniadau ein disgyblion.

**Parc Treftadaeth Cwm Rhondda -** Mae Blwyddyn 7 wedi mwynhau eu taith addysgol i Barc Treftadaeth y Rhondda, lle maent wedi dysgu am bwysigrwydd y gymuned lofaol hon a'i chysylltiad â dinas Caerdydd a'r dociau, yn ogystal â'r effaith ehangach a gafodd y pyllau glo yng Nghymru ac ar draws y byd. Diolch yn fawr iawn i'r holl staff sy'n gysylltiedig â gwneud y daith hon yn bosibl.



*Bl 7 Taith i'r Rhondda*

**Digwyddiadau Tymor yr Haf -** Mae'r digwyddiadau sydd i ddod yn dilyn yr hanner tymor yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| 7 Mehefin | Croesawu ymwelwyr o Ffrainc |
| 12 Mehefin | Blwyddyn 12 yn dychwelyd i wersi |
| 13 Mehefin | Ffair Ffau'r Dreigiau ar gyfer Bagloriaeth Cymru |
| 21 Mehefin | Diwrnod Agored Blwyddyn 6 |
| 22, 26 &27 Mehefin | Gwersi blasu ar gyfer Bl11 i ddychwelyd i 6ed Glantaf |
| 23 Mehefin | Athletau Ysgolion |
| 29 Mehefin | Dawns Ffarwel Bl 11 |



**Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd: Galw. Nhw. Allan -** Diolch i flwyddyn 9 am arwain neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd mewn 10 iaith yr wythnos diwethaf gan gynnwys Arabeg, Gwyddeleg, Iseldireg, Ffrangeg, Eidaleg, Almaeneg, Saesneg, Sbaeneg a Chymraeg.

**Llwyddiant Chwaraeon -** Roedd yn hyfryd gweld ein tîm gymnasteg yn profi llwyddiant fel pencampwyr Prydeinig Llawr a Llofnaid dan 14. Llongyfarchiadau i Carys Mayers ac Owain Griffiths am ennill y gwobrau bechgyn a merched a sgoriodd uchaf. Llongyfarchiadau hefyd i flwyddyn 7 am ennill Coron Driphlyg y Sir o ran pêl-rwyd, hoci a phêl-droed a da iawn i ferched blwyddyn 10 am gyrraedd rownd derfynol Rygbi'r Gynghrair Prydain am yr ail flwyddyn yn olynol! Bydd Glantaf nawr yn wynebu Brooksbank ym Mharc St James ar y 3ydd o Fehefin ym Mhencamwriaeth Ysgolion Inspiresport, sy'n rhan o'r '*Magic Weekend*'.

**Llongyfarchiadau i Osian James Blwyddyn 13 -** Rydym yn falch o rannu llwyddiant Osian James, a enillodd fedal aur ochr yn ochr â Kai Schlottmann o Ysgol Uwchradd Llanisien yn y Regatta Rhyngwladol iau dan 19 oed ym Munich.



*Medal Aur: Osian James Bl13*

**Asesiadau Personol Darllen a Rhifedd -** Bydd disgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 yn cwblhau eu hasesiadau darllen a rhifedd ym mis Mehefin, yn dilyn hanner tymor. Mae'r adrannau perthnasol wedi rhannu gwybodaeth mewn gwersi ac ar *Google Classroom*. Rhannwyd yr amserlen ar SIMS intouch ddydd Iau, 25 Mai. Mae manylion am y asesiadau wedi'u cynnwys yn y llythyr a anfonwyd ar SIMS intouch.

**Brechiadau imiwneiddio HPV 13 Mehefin -** Bydd y tîm imiwneiddio yn dychwelyd i roi'r brechiad cyntaf i ddisgyblion ym mlwyddyn 8 a gollodd y cyfle y tro cyntaf. Bydd y tim Imiwneiddio yn dod i roi brechiad cyntaf i ddigyblion bl.8 ac er mwyn derbyn y brechiad hwn (a gollwyd), mae'n RHAID iddynt lenwi'r ddolen ganiatad yma: https://forms.office.com/e/AQgz8m0bDz

**Holiadur Lles Rhieni -** Apêl olaf os gwelwch yn dda i gwblhau ein holiadur lles i rieni. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu. Mae eich awgrymiadau a'ch sylwadau yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.
https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k4Xr3qyyy4xOmA64fCu4avZUREdOWktCMzRaV1FJNEdSVEdQWlVFVUUxQy4u

**Hanner Tymor ar gyfer ymlacio -** Hoffem fanteisio ar y cyfle i ddymuno gwyliau hanner tymor ymlaciol i chi i gyd. Gall fod yn adeg heriol i'n disgyblion a'n rhieni yn ystod y tymor hwn o arholiadau ac felly rydym yn gobeithio y bydd yr hanner tymor yn cynnig rhywfaint o amser i orffwys. Rydym yn ddiolchgar unwaith eto am eich cefnogaeth barhaus a hoffem atgoffa'n disgyblion sy'n sefyll arholiadau ein bod yma i gynnig cefnogaeth a chyngor bob amser.



*Glantaf Pencampwyr Prydain mewn Gymnasteg*

Yn gywir,

Megan Rumming
Pennaeth Cynorthwyol
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf